

Is-adran Polisi Tai  
Housing Policy Division



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cylchlythyr cymdeithasau tai

Ystyr "cymdeithas dai" neu "gymdeithas" yn y cylchlythyr hwn ac mewn dogfennau cysylltiedig yw landlord cymdeithasol cofrestredig.

### RSL 01/17

### Amserlen ar gyfer Cyflwyno Gwybodaeth 2017/18

---

<b>Diben:</b>	Mae'r cylchlythyr hwn yn hysbysu Cymdeithasau Tai am yr amserlen ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall i'r tîm Rheoleiddio Tai ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018
<b>Dyddiad dod i rym:</b>	1 Ebrill 2017 (gan ddisodli cylchlythyr RSL 01/16)
<b>Statws:</b>	Gofyniad rheoleiddiol
<b>Dosbarthu:</b>	I Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sydd â mwy na 250 o unedau neu raglen ddatblygu, neu landlord cymdeithasol cofrestredig, sy'n rhan o grŵp sy'n datblygu
<b>Dogfennau cysylltiedig:</b>	Y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru

---

## Cyngor

Er mwyn cyflawni swyddogaeth reoleiddio Llywodraeth Cymru yn effeithiol mae angen i'r tîm Rheoleiddio Tai gael ffurflenni ariannol a ffurflenni eraill er mwyn ei helpu i ddeall trefniadau ariannol a threfniadau llywodraethu Cymdeithasau Tai.

Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwahanol ffurflenni y mae angen i'r tîm Rheoleiddio Tai eu cael yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.

## Crynodeb o'r gofynion

Mae angen i bob cymdeithas gyflwyno'r dogfennau canlynol:

1. Datganiadau Ariannol Archwiliedig
2. Llythyr Rheoli'r Archwilwyr
3. Cysoniad rhwng y ffigurau yn y datganiad ariannol â chyfrifon rheoli ar ddiwedd y flwyddyn fel y'u cyflwynwyd i'r bwrdd rheoli
4. Pecyn Cyfrifon Rheoli\*
5. Ffurflen cyllid preifat (gan ddefnyddio templed excel 2017)
6. Adroddiad blynyddol
7. Cynllun busnes strategol corfforaethol tymor canolog (os yw wedi'i lunio)
8. Amcanestyniadau ariannol 30 mlynedd\*
9. Crynodeb archwilio mewnol blynyddol ar gyfer 2016/17 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio neu'r Bwrdd gan eich Archwilwyr
10. Datganiad Blynyddol o achosion esempt o dan Atodlen 1 (fel y cyfeirir ato yng Nghylchlythyr Cymdeithasau Tai 005/10)
11. Datganiad Cydymffurfiaeth Blynyddol (yn unol â'r Fframwaith Dyfarniad Rheoleiddiol newydd)
12. Holiadur Boddhad Tenantiaid

*\* Rhoddir rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn isod. Nodir y gofynion ar gyfer yr amcanestyniadau ariannol 30 mlynedd yng Nghylchlythyr 02/17*

**Cysylltwch â'r tîm rheoleiddio tai os hoffech drafod unrhyw un o'r gofynion hyn.**

## Yr Amserlen ar gyfer Cyflwyno Dogfennau

Nodir yr amserlen ar gyfer derbyn gwybodaeth yn Atodiad A.

Noder mai'r dyddiadau a roddir yw'r dyddiadau olaf ar gyfer cyflwyno dogfennau. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu dogfennau a gyflwynir yn gynharach, cyn gynted ag y byddant wedi cael y gymeradwyaeth briodol.

Fel o'r blaen, mae rhywfaint o hyblygrwydd o ran y dyddiad erbyn pryd y mae angen i Gymdeithasau gyflwyno eu rhagolwg 30 mlynedd. Dylai cymdeithasau weithio ar y sail mai 31 Awst 2017 yw'r dyddiad cau ond gallant gysylltu â'r tîm Rheoleiddio Tai er mwyn trafod amrywiad posibl i'r dyddiad hwn pe bai'n cydfynd yn well â'u fframwaith adrodd mewnol.

Bydd y tîm Rheoleiddio Tai yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran cyflwyno'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y cylchlythyr hwn yn amserol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r dyddiadau cau. **Caiff achosion niferus o gyflwyno dogfennau yn hwyr eu hadlewyrchu yn eich barn reoleiddiol.**

**Os bydd unrhyw un o'r dyddiadau cau yn peri anhawster i chi cysylltwch â'r tîm rheoleiddio tai.**

## Cyfrifon Rheoli

Mae angen cyflwyno cyfrifon rheoli bob chwarter.

Dylai'r cyfrifon fod yn yr un fformat â'r rhai a gyflwynwyd i'r Bwrdd gyda'r gofynion sylfaenol canlynol:

1. Cyfrif incwm a gwariant a mantolen fanwl
2. Naratif sy'n esbonio amrywiadau mawr (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag incwm a gwariant cyfalaf)
3. Gwaith monitro cyfamodau benthyciad (os caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno i'r bwrdd mewn dogfen ar wahân megis adroddiad perfformiad neu adroddiad gan y Trysorlys wedyn mae angen darparu'r ddogfen hon hefyd)
4. Manylion y sefyllfa bresennol o ran arian parod/cyllid a rhagolwg llif arian parod cryno *ar gyfer y 12 mis nesaf o leiaf*. **Noder, o 1/4/2017 ymlaen, fod angen i ragolygon llif arian parod wahaniaethu rhwng derbyniadau a gwariant cyfalaf a refeniw, dangos yr arian parod rhydd a gynhyrchir gan weithrediadau presennol a nodi balans y cyllid sydd ar gael.** Atodir templed a awgrymir ar gyfer hyn i'r cylchlythyr hwn.

## Rhagolygon ariannol 30 mlynedd

Mae tîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Cymdeithasau Tai yn cyflwyno rhagolwg ariannol 30 mlynedd bob blwyddyn. **Er mwyn i'r tîm Rheoleiddio ddadansoddi'r cynllun mae'n rhaid i Gymdeithasau gyflwyno eu model mewn fformat a gymeradwywyd.**

Ar hyn o bryd y fformatau cymeradwy yw modelau Brixx a Capacity.

Os hoffai Cymdeithasau gyflwyno eu model mewn fformat gwahanol i'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd **mae angen iddynt gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ymlaen llaw.**

Ar gyfer Cymdeithasau sy'n gweithredu mewn strwythurau grŵp sicrhewch eich bod yn trafod eich trefniadau adrodd ar gyfer y rhagolwg ariannol 30 mlynedd ymlaen llaw â'r Tîm Rheoleiddio Tai.

Dylai cyflwyniadau gydymffurfio â Chylchlythyr 02/17

## Y Dull Cyflwyno

Dylid cyflwyno'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn electronig i

[housingregulation@cymru.gsi.gov.uk](mailto:housingregulation@cymru.gsi.gov.uk)

Os ydych am anfon copi o'ch ffurflenni at eich Dadansoddwr Ariannol a / neu eich Rheolwr Rheoleiddio mae croeso i chi wneud hynny.

*Noder na dderbynnir copïau caled.*

## Gwybodaeth gyswilt

Gellir cysylltu â'r tîm Rheoleiddio Tai gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol.

E-bost: [housingregulation@cymru.gsi.gov.uk](mailto:housingregulation@cymru.gsi.gov.uk)

Ffôn: 029 2037 0540 / 0300 062 6017 / 0300 025 3669

## Atodiad A: Cyfnod yr Amserlen 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018

Dogfen	Manylion	Dyddiad Cau
<b>YN GYMWYS I BOB LANDLORD CYMDEITHASOL COFRESTREDIG</b>		
1. Datganiadau ariannol archwiliedig	Wedi'u llofnodi a'u cymeradwyo gan y Bwrdd a'r archwilywyr allanol. Ar gyfer Cymdeithasau sy'n gweithredu mewn strwythur Grŵp - mae angen cyflwyno datganiadau ariannol wedi'u cydgrynhoi a fersiynau is-landlordiaid cymdeithasol cofrestredig unigol. Os cyhoeddir fersiwn 'sglein' hefyd yna dylid cyflwyno copi electronig o'r ddogfen hon <b>hefyd</b> .	6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn
2. Llythyr rheoli'r archwilywyr ac ymateb y bwrdd	Fel y'i cyflwynwyd i'r pwyllgor archwilio neu'r Bwrdd.	6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn
3. Cysoniad rhwng y cyfrifon rheoli a'r datganiadau ariannol ar ddiwedd y flwyddyn	Cysoniad rhwng y ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r rhai a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn y cyfrifon rheoli.	6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn
4. Cyfrifon rheoli chwarterol	Rhaid iddynt fod yn y fformat a gyflwynwyd i'r Bwrdd a chynnwys y wybodaeth ofynnol ddisgwyliedig.	42 diwrnod ar ôl diwedd y chwarter.
5. Ffurflen cyllid preifat (PFR)	<b>Gan ddefnyddio templed 2017</b> dylid ei chyflwyno fel ffeil Excel. Ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n gorffen ym mis Rhagfyr yn unig, mae angen cyflwyno ffurflen sy'n rhoi darlun o'r sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr 2016 <b>hefyd</b> .	31 Mai 2017 a 28 Chwefror 2018 (blynyddoedd ariannol sy'n gorffen ym mis Rhagfyr yn unig)
6. Adroddiad Blynyddol	Fel y'i darparwyd ar gyfer y tenantiaid.	6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn
7. Cynllun Busnes Corfforaethol	Fel y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd.	Pan fydd ar gael
8. Rhagolygon ariannol 30 mlynedd	Yn unol â'r fformat a ragnodwyd a'r canllawiau yng nghylchlythyr 02/17 Wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Dylid cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd gyda'r rhagolwg ynghyd â thaeilen sy'n dangos sut y cyfrifir y cyfamodau yn seiliedig ar y rhagolwg 30 mlynedd	31 Awst 2017
9. Crynodeb Archwilio Mewnol	Fel y'i cyflwynwyd i'r pwyllgor archwilio.	6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn
10. Datganiad Blynyddol o achosion esempt o dan Atodlen 1	Fel y cyfeirir ato yng Nghylchlythyr Cymdeithasau Tai 005/10. Mae angen cyflwyno datganiad hyd yn oed os na wnaed unrhyw esemptiadau yn ystod y cyfnod.	2 fis ar ôl diwedd y flwyddyn
11. Datganiad Cydymffurfiaeth Blynyddol	Yn unol â'r Fframwaith Dyfarniad Rheoleiddiol newydd.	Ar ddyddiad i'w gytuno â'ch Rheolwr Rheoleiddio

<b>12. Holiadur Boddhad Tenantiaid</b>	Yn unol â'r templed atodedig.	30 Mehefin 2017
--	-------------------------------	-----------------